

Systemau pleidleisio

Pecyn gweithgaredd



'Gorsaf Bleidleisio'

Beth sydd yn y pecyn?

Defnyddiwch yr adnoddau hyn i greu cyfleoedd i'ch disgyblion ddysgu am wahanol systemau ar gyfer etholiadau a myfyrio arnynt.

Yn cynnwys

- Syniadau dysgu i annog eich myfyrwyr i ystyried nodweddion y systemau hyn.
- Tablau Systemau Pleidleisio gydag a heb gryfderau a chyfyngiadau awgrymedig.

Cardiau Trymps Systemau Etholiadol

Gallai myfyrwyr greu eu nodiadau adolygu eu hunain ar ffurf cardiau trymps.

Gallai'r rhain gynnwys:

- Disgrifiad cryno o'r system.
- Siart gylch yn dangos rhaniad tebygol y canlyniadau.
- Enghreifftiau o ble y'i defnyddir
- Graddiad o'r system o ran
 - Cymesuredd
 - Hwylustod Gweithredu
 - 'Eglurder' i bleidleiswyr.

Rhesymau i Bleidleisio

Gofynnwch i'r disgyblion ystyried pleidleiswyr mewn systemau gwahanol. Sut fyddant yn teimlo am ganlyniadau posibl pob system? Beth yw goblygiadau posibl hyn?

Gan ddefnyddio'r tabl systemau pleidleisio anogwch y myfyrwyr i ymchwilio i enghreifftiau ble mae gwahanol systemau ar waith, a'u canlyniadau arferol.

Continwmm Cymesuredd

Gofynnwch i'r disgyblion ddefnyddio'r tablau systemau pleidleisio ar y tudalennau nesaf i restru gwahanol systemau etholiadol mewn trefn o gymesur i fwyafrifol.

Cymesur



Mwyafrifol

Math o System	Cryfderau	Cyfyngiadau
<p>Cyntaf i'r Felin (FPTP) Defnyddir y system hon yn ystod etholiadau cyffredinol a rhai pleidleisiau eraill yn y Deyrnas Unedig. Gall pob etholwr fwrw un bleidlais leol, a bydd yr ymgeisydd gyda'r nifer fwyaf o bleidleisiau yn dod yn AS neu gynghorydd. Yn hanesyddol mae fel arfer wedi cynhyrchu llywodraethau un blaid.</p>		
<p>Pleidlais Atodol Defnyddir mewn etholiadau maerol, mae pleidleiswyr yn dynodi eu dewis cyntaf ac ail ddewis. Os nad oes un ymgeisydd unigol yn sicrhau mwyafrif, bydd y ddau ymgeisydd gyda'r nifer uchaf o bleidleisiau yn aros, yr ymgeiswyr eraill yn cael eu dileu, a'r ymgeiswyr ail ddewis yn cael eu cyfrif i ddethol yr enillydd. Mae hyn yn debygol o arwain at lywodraethau mwyafrifol.</p>		
<p>System Rhestr Gaeddig (CLS) Defnyddir mewn etholiadau seneddol Ewropeaidd, mae'r system hon yn gofyn i etholwyr ddewis plaid o'u dewis, tra bod y pleidiau yn cyflwyno rhestr o ymgeiswyr i'w dyrannu yn ôl eu cyfran o'r bleidlais. Mae'r system hon yn debygol o arwain at glymbleidiau.</p>		
<p>Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy (STV) Defnyddir ar gyfer etholiadau lleol a datganoledig yng Ngogledd Iwerddon. Ym mhob ardal, mae nifer benodol o seddi ar gael, ac mae etholwyr yn dewis amrywiaeth o ymgeiswyr yn nhrefn ffafriaeth. Dyrannir seddi unwaith y bydd ymgeisydd yn cyrraedd 'cwota' (swm penodol) o'r pleidleisiau, a gellir ail-neilltuo pleidleisiau i leihau pleidleisiau 'gwastraff'.</p>		
<p>System Aelod Atodol (AMS) Mae gan bleidleiswyr mewn etholiadau ar gyfer Senedd yr Alban a Chynulliad Cymru ddwy bleidlais – un i ethol aelod ar gyfer eu hetholaeth leol ac un i ddynodi eu dewis o blaid . Mae hon yn system hybrid: mae'r pleidleisiau etholaeth yn cael eu cyfrif yn defnyddio'r system FPTP, a'r ail yn cael ei defnyddio i ddewis aelodau rhanbarthol yn gyfrannol. Gall gynyddu'r tebygolrwydd o glymbleidiau.</p>		

Math o System	Cryfderau	Cyfyngiadau
<p>Cyntaf i'r Felin (FPTP) Defnyddir y system hon yn ystod etholiadau cyffredinol a rhai pleidleisiau eraill yn y Deyrnas Unedig. Gall pob etholwr fwrw un bleidlais leol, a bydd yr ymgeisydd gyda'r nifer fwyaf o bleidleisiau yn dod yn AS neu gynghorydd. Yn hanesyddol mae fel arfer wedi cynhyrchu llywodraethau un blaid.</p>	<p>Mae'n dueddol o gynhyrchu llywodraethau mwyafrifol, sy'n gallu gwneud deddfu yn haws.</p> <p>Mae'n hawdd i bleidleiswyr ddeall – un person, un bleidlais.</p>	<p>Nid yw canlyniadau etholiad yn gyfrannol i bleidleisiau sy'n cael eu bwrw yn gyffredinol, a gall pleidiau llai a grwpiau lleiafrifol ddirodded o ddiffyg cynrychiolaeth.</p>
<p>Pleidlais Atodol Defnyddir yn aml mewn etholiadau maerol, mae pleidleiswyr yn dynodi eu dewis cyntaf ac ail ddewis. Os nad oes un ymgeisydd unigol yn sicrhau mwyafrif, bydd y ddau ymgeisydd gyda'r nifer uchaf o bleidleisiau yn aros, yr ymgeiswyr eraill yn cael eu dileu, a'r ymgeiswyr ail ddewis yn cael eu cyfrif i ddethol yr enillydd. Byddai hyn yn debygol o arwain at lywodraethau mwyafrifol.</p>	<p>Mae'n osgoi cyfrif lluosog ac aiddosbarthu, gan mai dim ond dau ddewis sy'n cael ei gofnodi.</p>	<p>Efallai na fydd pleidiau yn cael eu gwobrwyo am y gyfran o'r bleidlais a sicheir.</p>
<p>System Rhestr Gaeedig (CLS) Defnyddir mewn etholiadau seneddol Ewropeaidd, mae'r system hon yn gofyn i etholwyr ddewis plaid o'u dewis, tra bod y pleidiau yn cyflwyno rhestr o ymgeiswyr i'w dyrannu yn ôl eu cyfran o'r bleidlais. Mae'r system hon yn debygol o arwain at glymbleidiau.</p>	<p>Yn aml yn arwain at well cynrychiolaeth ar gyfer pleidiau llai a grwpiau lleiafrifol, gan y ceir cyswllt cryf rhwng pleidleisiau sydd wedi eu sicrhau a'r seddi a enillwyd.</p>	<p>Efallai nad oes cyswllt clir rhwng yr AS a'r etholaeth. Gall hyn wneud i bobl deimlo fod eu hardal yn cael llai o gynrychiolaeth nag y byddai dan FPTP.</p> <p>Mae'n system gymhleth i'w gweinyddu.</p>
<p>Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy (STV) Defnyddir ar gyfer etholiadau lleol a datganoledig yng Ngogledd Iwerddon. Ym mhob ardal, mae nifer o seddi ar gael, ac mae etholwyr yn dewis eu hoff ymgeiswyr yn nhrefn ffafriaeth. Yna dyrannir seddi unwaith y bydd ymgeisydd yn cyrraedd 'cwota' (swm penodol) o'r pleidleisiau, a gellir ail-neilltuo pleidleisiau i ymgeiswyr eraill, i leihau pleidleisiau 'gwastraff'.</p>	<p>Mae'n cynnig dewis i etholwyr o ymgeiswyr o bob plaid.</p> <p>Mae'n creu cyswllt cryf rhwng y pleidleisiau a enillir a'r seddi a sicheir.</p>	<p>Fel gyda CLS, efallai nad oes cyswllt clir rhwng yr AS a'r etholaeth.</p> <p>Mae'n system gymhleth i'w gweinyddu.</p>
<p>System Aelod Atodol (AMS) Mae gan bleidleiswyr mewn etholiadau ar gyfer Senedd yr Alban a Chynulliad Cymru ddwy bleidlais – un i ethol aelod ar gyfer eu hetholaeth leol ac un i ddynodi eu dewis o blaid. Mae hon yn system hybrid: mae'r pleidleisiau etholaeth yn cael eu cyfrif yn defnyddio'r system FPTP, a'r ail yn cael ei defnyddio i ddewis aelodau rhanbarthol yn gyfrannol. Gall gynyddu'r tebygolrwydd o glymbleidiau.</p>	<p>Yn cadw'r cyswllt rhwng AS a'r etholaeth tra'n cynnig dewis o gynrychiolwyr.</p> <p>Yn aml mae'n arwain at fwy o gynrychiolaeth ar gyfer pleidiau llai a grwpiau lleiafrifol.</p>	<p>Nid yw'r canlyniadau mor gyfrannol i'r pleidleisiau sydd wedi eu bwrw â STV.</p>